# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

**2011 mccc 4**

## RHAN 1

ATGYFNERTHU DEMOCRATIAETH LEOL

## PENNOD 1

HYBU A CHEFNOGI AELODAETH O AWDURDODAU LLEOL

*Cefnogi aelodaeth*

### 7 Hyfforddi a datblygu aelodau o awdurdod lleol

(1) Rhaid i awdurdod lleol sicrhau y darperir cyfleoedd hyfforddi a datblygu rhesymol i'w aelodau.

(2) Rhaid i awdurdod lleol sicrhau bod adolygiad blynyddol o anghenion hyfforddi a datblygu'r aelod ar gael i bob aelod o'r awdurdod.

(3) Rhaid i'r adolygiad gynnwys cyfle am gyfweliad gyda pherson sydd, ym marn yr awdurdod, yn briodol gymwys i roi cyngor am anghenion hyfforddi a datblygu aelod o awdurdod lleol.

(4) Wrth arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.

(5) Yn achos awdurdod sy'n gweithredu gweithrediaeth arweinydd a chabinet (Cymru), nid yw cyfeiriad yn yr adran hon at aelod o awdurdod lleol yn cynnwys yr arweinydd gweithrediaeth.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 7 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Adran 7.